

**IS-DDEDDFWRIAETH**

**2008 Rhif. 23**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL  
GWEINIDOGION CYMRU**

**(OCHR DDEHEUOL BASN Y RHATH,  
CAERDYDD) 2008**

**Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975  
(fel y'i diwygiwyd)  
a Deddf Caffael Tir 1981**

**SUBORDINATE LEGISLATION**

**2008 No. 23**

**THE WELSH MINISTERS (SOUTH SIDE OF  
ROATH BASIN, CARDIFF)**

**COMPULSORY PURCHASE ORDER 2008**

**The Welsh Development Agency Act 1975  
(as amended)  
and the Acquisition of Land Act 1981**

Mae Gweinidogion Cymru (a elwir yn "awdurdod caffael" yn y gorchymyn hwn) yn gwneud y gorchymyn a ganlyn-

The Welsh Ministers (in this order called "the acquiring authority") make the following order-

1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gorchymyn hwn, mae'r awdurdod caffael, o dan adran 21A ac Atodlen 4 Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd), drwy hyn wedi ei awdurdodi i brynu'n tir a'r hawliau newydd dros y tir a ddisgrifir ym mharagraff 2 at ddiben hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru, gwella'r amgylchedd, a rhyddhau tir ar gyfer ei ddatblygu a defnyddio tir diffaith neu wella ei olwg, drwy ailddatblygu cynhwysfawr i ddarparu defnyddiau busnes, masnachol a defnyddiau trefol eraill ynghyd â datblygu preswyl a thir y cyhoedd newydd.

1 Subject to the provisions of this order, the acquiring authority is, under section 21A and Schedule 4 to the Welsh Development Agency Act 1975 (as amended), hereby authorised to purchase compulsorily the land and the new rights over land described in paragraph 2 for the purpose of furthering the economic and social development of Wales, the improvement of the environment, making land available for development and bringing derelict land into use or to improve its appearance, by a comprehensive redevelopment to provide business, commercial and other urban uses together with residential development and new public realm.

2 (1) Y tir yr awdurdodir ei brynu yn orfodol o dan y gorchymyn hwn yw'r tir a ddisgrifir yn yr Atodlen iddo ac amlinellir ac a ddangosir â lliw pinc ar fap a luniwyd yn ddyblyg ac a seliwyd â sêl gyffredin yr awdurdod caffael ac a farciwyd yn "Map y cyfeirir ato yng Ngorchymyn Prynu Gorfodol Gweinidogion Cymru (Ochr Ddeheuol Basn y Rhath, Caerdydd) 2008".

2 (1) The land authorised to be purchased compulsorily under this order is the land described in the Schedule hereto and delineated and shown coloured pink on a map prepared in duplicate, sealed with the common seal of the acquiring authority and marked "Map referred to in The Welsh Ministers (South Side of Roath Basin, Cardiff) Compulsory Purchase Order 2008".

(2) Yr hawliau newydd i'w prynu'n orfodol dros y tir o dan y gorchymyn hwn yw'r rhai a ddisgrifir yn yr Atodlen a dangosir y tir â lliw glas ar y map a enwir uchod.

(2) The new rights to be compulsorily purchased over land under this order are described in the Schedule and the land is shown coloured blue on the said map.

- 3 Mae Rhannau 2 a 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Caffael Tir 1981 drwy hyn wedi eu hymgorffori yn y gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r addasiadau y dehonglir cyfeiriadau a geir ynddynt at yr ymgymeriad fel cyfeiriadau at ddatblygiad a adeiladwyd neu sydd i'w adeiladu ar y tir yr awdurdodir ei brynu neu ar y tir yr awdurdodir prynu hawliau drosto, yn ôl y digwydd.
- 3 Parts 2 and 3 of Schedule 2 to the Acquisition of Land Act 1981 are hereby incorporated with this order subject to the modifications that references therein to the undertaking shall be construed as references to development constructed or to be constructed on the land authorised to be purchased or on the land over which rights are authorised to be purchased as the case may be.
- 4 (1) Yn y paragraff hwn, mae "tir y gorchymyn" yn golygu'r tiroedd a rifwyd 33, 129, 130, 131, 132, 133, 135 a 141 yn yr Atodlen.
- 4 (1) In this paragraph, "the order land" means the lands numbered 33, 129, 130, 131, 132, 133, 135 and 141 in the Schedule.
- (2) O'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn yn weithredol neu'r dyddiad y mae tir y gorchymyn, neu unrhyw ran ohono, yn cael ei freinio yn yr awdurdod caffael, pa un bynnag sydd olaf, caiff y tir hwnnw neu'r rhan ohono a freinir (yn ôl yr achos) ei ryddhau o bob hawl, ymddiriedolaeth a digwyddiad yr oedd yn amodol arnynt yn flaenorol.
- (2) As from the date on which this order becomes operative or the date on which the order land, or any part of it, is vested in the acquiring authority, whichever is the later, that land or that part of it which is vested (as the case may be) will be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject.
- (3) O'r dyddiad y daw'r gorchymyn hwn i rym neu'r dyddiad y caiff unrhyw hawl newydd ei breinio yn yr awdurdod caffael, pa un bynnag sydd ddiweddaraf, caiff y tir y caiff yr hawl newydd ei chaffael drosto ei ryddhau rhag pob hawl, ymddiriedolaeth a digwyddiad yr oedd yn amodol arnynt yn flaenorol i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag ymarfer yr hawl newydd hon.
- (3) As from the date on which this order becomes operative or the date on which any new right is vested in the acquiring authority, whichever is the later, the land over which the new right is acquired will be discharged from all rights, trusts and incidents to which it was previously subject so far as their continuance would be inconsistent with the exercise of that new right.

**CYFLAWNWYD FEL  
GWEITHRED drwy gymhwyso  
sêl Gweinidogion Cymru**

DILYSIR cymhwysiad sêl  
Gweinidogion Cymru gan  
PATRICIA M CLARKE Uwch  
Cyfreithiwr Gwasanaethau  
Cyfreithiol Masnachol a  
awdurdodir yn briodol at y diben  
hwnnw gan Gyfarwyddwr  
Gwasanaethau Cyfreithiol drwy  
awdurdod Gweinidogion Cymru o  
dan Adran 90(2) Deddf  
Llywodraeth Cymru 2006

Llofnod.....

Enw.....

Teitl Swydd.....

**DYDDIEDIG y 3 ydd dydd o Gorffennaf  
2008**

**EXECUTED AS A DEED  
by applying the seal of  
the Welsh Ministers.**

The application of the seal of the  
Welsh Ministers is  
AUTHENTICATED by  
PATRICIA M CLARKE Senior  
Lawyer Commercial Legal  
Services who is duly authorised  
for that purpose by the Director  
of Legal Services by authority of  
the Welsh Ministers under  
section 90(2) of the Government  
of Wales Act 2006.

Signed.....

Name.....

Job Title.....

**DATED the 3rd day of July 2008**